# PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 17 Medi, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Y Cynghorydd E. Goodjohn (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, E.J. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards, J.M. Norman a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau).

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) BRO MORGANWG 2024-25 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ar gyfer 2024-25 a'r cynnydd y mae’r partneriaid wedi ei wneud o ran gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Lles.

(2) RHANNU yr argymhellion canlynol gyda’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), trwy’r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol:

- Bod y BGC yn ystyried sefydlu Is-Grŵp Bwyd i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â bwyd iach a chynaliadwy.
- Bod y BGC yn ymwybodol o bryderon y Pwyllgor ynghylch yr angen am fwy o adnoddau plismona gweladwy yn ein cymunedau, i ddarparu diogelwch a sicrwydd i breswylwyr, ac i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Bod yr adborth canlynol gan y Pwyllgor ar fformat yr adroddiad yn cael ei drosglwyddo i'r BGC:
  - Er ei bod yn amlwg o'r adroddiad bod ystod eang o waith yn cael ei wneud gan bartneriaid BGC, byddai'r Pwyllgor yn croesawu darlun cliriach o gyfeiriad cyffredinol gwaith y BGC dros y 5 mlynedd nesaf, a sut mae'r gwaith sydd ar y gweill yn cysylltu'n ôl i'r Cynllun Lles gwreiddiol ar gyfer y BGC.  Er enghraifft, byddai cynnwys nodau cliriach, yn enwedig nodau ar gyfer diwedd y cyfnod o 5 mlynedd, a hefyd monitro cynnydd yn erbyn nodau'r

bwrdd yn cael eu croesawu. Byddai cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thystiolaeth o ganlyniadau ac effaith y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn ddefnyddiol. Yn ogystal â hyn, byddai cynnwys manylion y gwaith a wneir gan Gynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â gwybodaeth am lefel y buddsoddiad sydd gan y BGC i gyflawni ei nodau, yn ddefnyddiol hefyd.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau Etholedig ar e-bost, fel y gallai'r holl Aelodau ystyried a oedd unrhyw faterion yn yr adroddiad y dylid eu cynnwys yn rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn y dyfodol, a hefyd i aelodau'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Chyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, er gwybodaeth.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi adborth y Pwyllgor ar yr adroddiad i'r BGC.

(3) Parhau i graffu ar waith y BGC a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau amdano, ac er gwybodaeth i'r Aelodau.

EITEM AGENDA 4. STRATEGAETH ARIANNOL 2026/27 I 2030/31 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cyfeiriad gan y Cabinet a'r Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaethau a wnaed ar gostau a chyllid yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i adnewyddu.

(2) Y dylid gofyn i swyddogion ddarparu data i'r Pwyllgor a fyddai'n dangos dadansoddiad o'r gwahaniaeth yn y Dyfarniad Cyflog a swyddi gwag.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet, ac adroddiad y Cabinet ar y Strategaeth Ariannol, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

(2) I egluro'r maes hwn o gyllideb a chyllid y Cyngor i'r Aelodau.

EITEM AGENDA 5. MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2025 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi’r cyfeiriad gan y Cabinet a’r adroddiad Monitro Cyfalaf sydd wedi’i atodi.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet ac adroddiad y Cabinet, a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2025/26 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cyfeiriad gan y Cabinet a'r adroddiad Monitro Refeniw sydd wedi'i atodi.

(2) Y dylid darparu adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar y cynllun a'r mesurau a gymerwyd i adfer cyllidebau ysgolion.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet a'r adroddiad Monitro Refeniw, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am hyn, fel maes pwysig o bryder o fewn cyllid y Cyngor.